OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 616 (Cy.68)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 76(4) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008; deuant i rym ar 31 Mawrth 2008 ac maent yn gymwys i Gymru.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

Swyddogaethau penodedig

2.—(1) Mae pob swyddogaeth a roddir i swyddogion gorfodi gan y deddfiadau a bennir ym mharagraff (2) neu oddi tanynt yn swyddogaeth ddynodedig at ddibenion adran 76(3)(a) o Ddeddf 2004.

(2) Y deddfiadau hynny yw—

(a) adran 78(2)(a) a (b) o Ddeddf 2004;

(b) adran 79 o Ddeddf 2004; ac

(c) adran 99 o Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**3**).

(**1**) 2004 p. 18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 99 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), Atodlen 4, paragraff 32, Atodlen 8. Cafodd swyddogaethau o dan adran 99 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (OS 2004/3044) gydag eithriadau mewn perthynas â'r rhan honno o draffordd yr M4 a elwir "*the New Toll Plaza area*" a "*the new Bridge*" fel y'i diffinnir yn adran 39(1) o Ddeddf Pontydd Hafren 1992 (p.3) a'r rhan honno o'r ffordd a adeiladwyd gan y Gweinidog Trafnidiaeth a ddisgrifir yn Atodlen 1 i Orchymyn